# Defnyddio offer a chyfarpar ar gyfer adeiladu neu gynnal a chadw

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â defnyddio offer neu gyfarpar ar gyfer adeiladu neu gynnal a chadw. Bydd angen ichi ddewis yr offer neu'r cyfarpar llaw a/neu bŵer priodol ar gyfer y dasg, eu defnyddio nhw mewn dull diogel a phriodol a chyflawni gwaith cynnal a chadw arferol sylfaenol yn ôl yr angen.

Fe ymddangosodd y safon hon yn NOS Theatr Dechnegol V2 fel MTP1.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dehongli'r wybodaeth a ddarperir sy'n ymwneud â'r gwaith a defnyddio'r offer a'r cyfarpar er mwyn cadarnhau ei berthnasedd.
2. defnyddio'r offer a'r cyfarpar yn ddiogel mewn ffyrdd sy'n bodloni'r ddeddfwriaeth berthnasol a chyfredol a'r dogfennau statws cyfreithlon arbennig
3. y canllaw a gweithdrefnau swyddogol y sefydliad er mwyn cynnal arferion gweithio diogel.
4. osgoi peryglon drwy gydymffurfio â'r wybodaeth diogelwch a ddarperir, gan gynnwys defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) i gyflawni'r gweithgaredd yn unol â'r ddeddfwriaeth, y Codau Ymarfer Cymeradwy a/neu ofynion y sefydliad.
5. ceisio am adnoddau megis ffynhonnell tanwydd / pŵer, ireidiau a nwyddau traul i gynnal offer pŵer a/neu weithrediadau offer i gyflawni'r rhaglen waith
6. diogelu'r gwaith a'r ardal o'i gwmpas rhag difrod mewn ffyrdd sy'n bodloni gweithdrefnau'r sefydliad.
7. cael gwared ar wastraff yn unol â'r ddeddfwriaeth
8. cynnal man gweithio glân.
9. paratoi'r offer a/neu'r cyfarpar yn unol â'r arferion gweithio diogel.
10. cyflawni archwiliadau paratoi cyn defnyddio ar unedau pŵer, yr offer a/neu'r cyfarpar ategol yn unol â'r gweithdrefnau neu'r cyfarwyddiadau gweithio a ddarperir.
11. defnyddio unedau pŵer, yr offer a/neu'r cyfarpar ategol yn unol â'r arferion gweithio diogel i gyflawni'r deilliant gwaith.
12. dychwelyd yr offer a'r cyfarpar i gyflwr gweithredol diogel unwaith ichi gwblhau'r gwaith.
13. dadosod unedau pŵer, yr offer a'r cyfarpar ategol.

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y wybodaeth weithredu a'r ddeddfwriaeth sy'n briodol i'r offer a/neu'r cyfarpar.
2. gweithdrefnau'r sefydliad a ddatblygwyd i adrodd am ac unioni gwybodaeth amhriodol ac adnoddau anaddas, a sut cân nhw eu rhoi ar waith.
3. y mathau o wybodaeth gan gynnwys lluniau, manylebau, asesiadau risg, datganiadau dulliau, deddfwriaeth, Codau Ymarfer, gwybodaeth gwneuthurwyr a chyfarwyddiadau gweithredu, eu ffynonellau a sut gân nhw eu dehongli.
4. gweithdrefnau'r sefydliad ynghylch datrys problemau gyda'r wybodaeth a pham ei bod hi'n bwysig cydymffurfio gyda nhw.
5. y problemau a allai godi o wybodaeth, adnoddau a dulliau gweithio, eich awdurdod chi i'w unioni a gweithdrefnau adrodd y sefydliad.
6. y lefel o ddealltwriaeth y mae'n rhaid i weithredwyr feddu arni ar gyfer deddfwriaeth berthnasol, gyfredol a'r canllawiau swyddogol a sut caiff ei roi ar waith.
7. sut gallai eich cyfrifoldebau chi ynghylch y ddeddfwriaeth gyfredol newid wrth weithio yn y gweithle, islaw lefel y ddaear, o uchder, gydag offer a chyfarpar, gyda deunyddiau a sylweddau, gyda symud/storio deunyddiau a drwy drin a thrafod pwysau a chodi mecanyddol.
8. sut i weithio'n ddiogel wrth ddefnyddio peiriannau, offer, cyfarpar a deunyddiau peryglus.
9. y gweithdrefnau ar gyfer adrodd am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am lunio'r adroddiad.
10. defnydd, math a diben pob math o gyfarpar diogelu personol (PPE) a pham a phryd y dylid eu defnyddio
11. sut dylid ymateb i argyfyngau megis tanau, colledion dŵr ac anafiadau sy'n ymwneud â'ch gwaith a phwy ddylid ymateb iddyn nhw.
12. y mathau o ddiffoddwyr tân (megis Dŵr, CO2, ewyn a phowdwr) a sut a phryd cân nhw eu defnyddio.
13. gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar eich cyfer chi, y gweithle a'r cwmni o ran yr offer a/neu'r cyfarpar ac eiddo personol.
14. y peryglon sy'n gysylltiedig â'r adnoddau a'r dulliau gweithio a sut mae modd eu goresgyn.
15. sut i adnabod peryglon o ddulliau gweithio, gwybodaeth dechnegol y gwneuthurwr, rheoliadau statudol neu'r canllawiau swyddogol.

16. y gofynion ar gyfer ystyriaethau o ran awyru.
17. sut i gadw a chael gwared ar ddeunydd peryglus yn ddiogel.
18. y manylion sydd angen eu cofnodi, pa gofnodion i'w cadw, a phwy sydd angen yr wybodaeth.
19. mathau, nifer, ansawdd a maint deunyddiau, cyfansoddion ac offer safonol a/neu arbenigol, gan gynnwys ffynonellau pŵer, tanwydd, nwyddau traul, ac ireidiau, sydd eu hangen arnoch i gyflawni'ch gwaith
20. gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer archebu nwyddau traul ac adnoddau eraill, pam eu bod nhw wedi'u datblygu a sut i'w defnyddio.
21. sut i amddiffyn gwaith rhag difrod a diben diogelu.
22. sut i baratoi, gosod a bod yn barod i weithio, cyn defnyddio'r offer a/neu'r cyfarpar.
23. sut i gyflawni gwiriadau ymlaen llaw yn unol â gwybodaeth / gweithdrefnau'r gwneuthurwyr a'r cyflenwyr cyn defnyddio'r offer a/neu'r cyfarpar.
24. sut i weithredu, defnyddio a rheoli, monitro a chynnal a chadw offer a/neu gyfarpar ac adrodd am broblemau.
25. sut i gau, diogelu, dadosod, cludo a/neu storio offer pŵer, ategolion, atodiadau'r offer a/neu'r cyfarpar ar ôl ichi eu defnyddio.
26. y cyfrifoldebau amgylcheddol, y gweithdrefnau sefydliadol, gwybodaeth y gwneuthurwr, y rheoliadau statudol a'r canllawiau swyddogol sy'n ymwneud â chael gwared ar wastraff.
27. sut i weithredu'n effeithiol a chyfathrebu fel aelod o dîm
28. anghenion y bobl eraill sy'n gysylltiedig â defnyddio unedau, yr offer / neu'r cyfarpar pŵer.

CCSTP21

Defnyddio offer a chyfarpar ar gyfer adeiladu neu gynnal a chadw

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Creative & Cultural Skills |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Ebr 2011 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Ebr 2015 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Creative and Cultural Skills |
| **RCU gwreiddiol** | CCSTP21 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Galwedigaethau Artistig a Llenyddol, Crefftau, y celfyddydau creadigol a dylunio, Y Celfyddydau Perfformio, Galwedigaethau Adeiladu Elfennol |
| **Cyfres/Set** | Digwyddiadau Byw, Theatr Dechnegol a Pherfformio Byw (Craidd) |
| **Geiriau Allweddol** | Offer; cynnal a chadw; adeiladu; offer llaw; offer pŵer; Digwyddiadau Byw; Arddangosfeydd; |